



Adeiladau a diogelwch tân

GWERS CLWB STEM RAGARWEINIOL: CANLLAWIAU ATHRAWON

Deilliannau dysgu

- Archwilio gwahanol fathau o adeiladau a'r risg tân maent yn ei wynebu
- Disgrifio effaith technoleg, dylunio a phobl ar ddiogelwch tân a
- gwerthuso a dylunio ffyrdd o greu adeiladau sydd â gwell diogelwch tân

Adnoddau

- Papurau post-it neu debyg i fyfyrwyr allu grwpio mathau o adeiladau
- gyda'i gilydd, deunydd poster ar gyfer yr her derfynol ynghylch gwella diogelwch tân



Gweithgareddau gwers

(1 awr; gellir ei ymestyn os yn briodol)

	Gweithgaredd	Adnoddau
Gweithgaredd 1 (5 mun)	<p>Eglurwch bod dyfeisiau nad oeddent yn gysylltiedig o'r blaen yn cael eu cysylltu er mwyn creu newid anferth yn y ffordd mae'r byd yn gweithio. Dyma yw sail Rhyngrwyd Popeth.</p> <p>Gallech hefyd ddefnyddio'r fideo a'r erthygl ar dân siop Woolworths ym Manceinion yn 1979, a arweiniodd ar newid y ddeddf ynghylch diogelwch tân. Dylai'r rhain fod yn ddigwyddiadau digon pell yn ôl i beidio â phoeni myfyrwyr iau, ond gwiriwch hynny cyn eu defnyddio.</p>	<p>Fideos i'w ffrydio:</p> <p>Cyflwyniad cyffredinol i 'Rhyngrwyd Popeth'</p> <p>https://youtu.be/HTUSTeijizE</p> <p>http://www.bbc.co.uk/news/uk-england-manchester-20598600</p>
Gweithgaredd 2 (10 mun)	<p>Bydd myfyrwyr yn meddwl, paru a rhannu pa adeiladau y gallant feddwl amdanynt y mae pobl yn eu defnyddio.</p> <p>Meddwl ar eu pennau eu hunain am 2 funud paru ac ysgrifennu am 3 munud</p> <p>Rhannu fel tîm a dechrau grwpio'r adeiladau gyda'i gilydd.</p> <p>Gobeithio y bydd y myfyrwyr yn nodi gwahanol fathau o gartrefi, busnesau masnachol, ffatrioedd, adeiladau hamdden a chwaraeon yn ogystal â mathau eraill megis gorsafoedd gofod a chestyll.</p> <p>Y myfyrwyr sydd i benderfynu ar y categorïau ond gallech eu hannog i feddwl am debygrwydd rhyngddynt, megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> ■ Preswyl (e.e. Tai teras) masnachol ■ (e.e. Siop esgidiau) ■ Diwydiannol (e.e. Ffatri) ■ gynhyrchu siocled) addysgol (e.e. Ysgol gynradd) ■ Hanesyddol (e.e. Tŷ bonedd) 	<p>Papurau post-it, cardiau.</p> <p>Ar gyfer gweithgaredd meddwl, paru a rhannu.</p>
Gweithgaredd 3 (10 mun)	<p>Yna bydd angen i'r myfyrwyr werthuso'r mathau o risgiau yn nhermau diogelwch tân sy'n wynebu'r gwahanol grwpiau o adeiladau. Gellir gwneud hynny drwy roi nodiadau gludiog ar y grwpiau.</p> <p>Efallai y bydd angen cymorth ar y grwpiau mewn perthynas â'r risgiau a beth allant ei wneud i'w lleihau mewn adeilad.</p> <p>Gallai anogiadau gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ■ Beth yw effeithiau tân (mwg/gwres/fflamau) ■ Llwybrau dianc ■ Mathau o bobl ■ Gweithgareddau sy'n cael eu cynnal mewn adeilad penodol Deunyddiau neu gemegau ■ fflamadwy ■ Ffynhonnell cynnau tân ■ Agosrwydd i adeiladau ■ eraill Mathau o danau ■ Offer diogelwch tân neu rybuddion maent wedi eu gweld yn yr ysgol neu'n y cartref 	<p>Nodiadau gludiog, cardiau</p>

<p>Gweithgaredd 4 (20 mun)</p>	<p>Mae'r prif weithgaredd yn cael ei osod yng nghyd-destun tîm yn cael contract gan gyngor lleol i wella diogelwch tân math o adeilad yn yr awdurdod lleol.</p> <p>Mae angen i'r timau ddewis math o adeilad a hysbysu'r cyngor ynghylch beth ellid ei wneud o ran cyngor ar ddiogelwch tân.</p> <p>Er mwyn helpu i lunio eu hadborth, gallant greu poster sy'n nodi eu hawgrymiadau o ran gwella diogelwch tân megis</p> <ul style="list-style-type: none"> ■ Technoleg a Rhyngrwyd Popeth (dyfeisiau sy'n cynnwys synwryddion megis camerâu neu synwryddion gwres, dyfeisiau sy'n gallu cyfathrebu megis hybiau Wi-Fi; dyfeisiau sy'n derbyn negeseuon megis ffonau symudol). ■ Gwybodaeth i'r bobl sy'n defnyddio'r adeilad (arwyddion a gwybodaeth) <p>Syniadau ar gyfer gwella diogelwch yn yr adeilad (larymau mwg / chwistrellau / diffoddwyr / marciau llwybrau dianc - yn arbennig os oes cysylltiad drwy'r rhyngrwyd).</p> <p>Cofiwch eu hannog i ymchwilio i dechnoleg a Rhyngrwyd Popeth.</p> <p>Gallech geisio sicrhau bod y timau yn dewis gwahanol fathau o adeiladau er mwyn ychwanegu amrywiaeth.</p>	<p>Deunyddiau poster, pennau blaen ffelt, papur</p>
<p>Gweithgaredd 5 (15 mun)</p>	<p>Bydd y myfyrwyr yn adrodd yn ôl ar eu canfyddiadau drwy drafod beth sydd ar eu posteri gyda gweddill y clwb STEM.</p>	

Nodiadau Ychwanegol

O ystyried natur y testun, mae angen bod yn sensitif wrth drafod y mathau o dân a thanau sydd wedi digwydd. Mae'r enghraifft a roddir bron yn 40 oed, a gall fod yn well osgoi tanau mwy diweddar, yn ddibynol ar y grŵp.

